- 8 Cynrychiolaeth y sector gwirfoddol ar gyrrif allweddol wedi ei sicrhau a'i gynyddu - byrddau ieichyd lleol, partneriaethau ieuenctid a Ffurwm Troseddau ieuenctid i Gymru Gyfan.
- 9 Mae penderfyniadau cyllido cychwynnol ynghylch Cymunedau yn Gyntaf yn dangos fod mudiadau gwirfoddol a chymunedol wedi cymryd yr awenau mewn sawl ardal.
- 10 Gellir dangos fod cynnydd sylweddol mewn adnoddau - £10.5m - yn ganlyniad uniongyrchol i ddylanwad cynyddol ar bolisiau:
 - £450,000 ar gyfer prosiectau straen cefn gwlad fel rhan o'r Cynllun Adfer Cefn Gwlad;
 - £9m o grantiau uniongyrchol y cynllun Cymunedau yn Gyntaf yn adlewyrchu argymhellion y sector ar gyfer mynediad uniongyrchol at nawdd i grwpiau cymunedol;
 - nawdd ychwanegol gwerth cyfanswm o £515,000 wedi ei sicrhau ar gyfer cynllun LVS;
 - nawdd ychwanegol gwerth cyfanswm o £200,000 wedi ei sicrhau ar gyfer cynllun VWF;
 - nawdd ychwanegol gwerth cyfanswm o £42,000 wedi ei sicrhau ar gyfer rhwydweithiau'r Cyngor Partneriaeth;
 - Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf wedi sicrhau £600,000;
 - £250,000 i gynllun grantiau canolfannau bro;
 - £10,000 i gynllun dolenni cymuned.

Gwersi a ddysgwyd a blaenoriaethau'r dyfodol

Mae dylanwad Polisi CGGC - ar y mudiad ac ar sector yn gyffredinol - wedi bod yn sylweddol, fel a welir yn y crynodeb uchod. Mewn llawer o achosion, mae'r emillion polisi wedi arwain at gyflenw cyllido newydd - gyda rhai ohonynt yn cael eu gweinyddu gan CGGC ei hun (Cymunedau yn Cyntaf, Straen Cefn Gwlad), ac mae'n bwysig bod y nawdd yn arwain at gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir trwy'r prosesau polisi ac a nodwyd gan y sector.

Gall rôl y sector mewn gwasanaethau cyhoeddus arwain at flaenoriaethau newydd o safbwyt anghenion cefnogi'r sector - datblygu sgiliau ac adnoddau dynol, TCCs, sicrwydd ansawdd. Bydd angen i CGGC allu dangos fod ei wasanaethau cefnogi ei hun yn ymateb i anghenion heriol a blaenoriaethau newydd.

Cash bids: System simplified Poor areas' grants boost

By Rhiannon Beacham
Council Reporter

A NEW Red Tape Busting Fund will make it easier for small community groups and voluntary organisations to take part in the National Assembly's Communities First programme.

Edwina Hart, minister for finance, local government and com-

from the Trust Fund - £20,000 a year has been set aside for eligible wards and 'communities of interest', and £10,000 for sub-wards.

These funds are ring-fenced for each area, guaranteeing all areas an

activities.

"I believe this will allow people from a much wider range of community groups to contribute to the regeneration of their areas."

"The simple application form makes this funding accessible to all and will allow us to give quick responses to all applicants."

The Wales Council Voluntary Action administering the scheme and a panel made up of members of the Con-

New aid scheme on rural stresses

A new scheme to support grassroots organisations working with people suffering from stress in rural areas has been welcomed by Welsh Rural Affairs and Assembly Business Minister Carwyn Jones and Health Minister Jane Huett.

The Rural Stress Scheme, which has been set up under the Rural Recovery Plan launched by the Welsh Assembly Government last year, has a budget of £450,000 over the next two years.

The scheme, which is being managed by the Wales Council for Voluntary Action (WCVA) on behalf of the Welsh Assembly Government, will provide revenue funding for voluntary bodies to enable them to tackle stress in rural

Bob Hutchings a Graham Benfield yn pwysio a mesur yn y gynhadledd hynnydol.



Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol (CPSG)

Mae Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol a chylarfodwyd Gweinidogol, sy'n gyfrngau allweddol sy'n sicrhau trafodaethau ffurflol rhwng y sector a'r Cynulliad, wedi datblygu dros y flwyddyn gyda chanlyniadau sy'n amlwg i'r sector. Maent wedi denu sylw mudiadau eraill o'r DU, Ewrop a thu hwnt gan gynnwys gwahoddiad ym mis Mawrth 2002 i Phil Jarrold (Dirprwy Brit Weithredwr CGGC) a Norma Barry (Cyfarwyddwr Cyfarwyddieth Cymunedau'r Cynulliad) i drafod y modelau ar gyfer cysylltiadau rhwng y llywodraeth a'r sector gwirfoddol gyda Llywodraeth Federal Canada.

Mae prif Iwyddiannau CPSG yn cynnwys cyhoeddi Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Sector Gwirfoddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a darparu gwybodaeth sylfaenol ar nawdd uniongyrchol ac anuniongyrchol y Cynulliad i'r sector gwirfoddol - sy'n holbwysig i alluogi'r sector I fonitro ei berthynas a'r llywodraeth.

Cynhalwyd dau seminar Iwyddiannus lawn i ddatblygu cysylltiadau rhwng y sector a'r Cynulliad. Nod y cyntaf oedd gwella dealtwriaeth y sector gwirfoddol o weithdrefnau deddfu'r Cynulliad a sut i gyfranogi ynddynt, tra'u oedd yr ail yn ymdrechu i gynnal a gwella'r berthynas waith rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a mudiadau gwirfoddol Prydeinig sy'n gweithio yng Nghymru.

Roedd y sector gwirfoddol helyd yn gwerthfawrogi'r cyfarfod y Gweinidogol fel cyfle i gael trafodaethau cyson gyda Gweinidogion yn

ogystal â bod yn gyfle i gyfrannu at ddatblygu polisiau. Mae'r canlyniadau penodol a'r datblygiadau polisi'n cynnwys:

- cyfraniad y sector gwirfoddol mewn addysg i'r panel datblygu cynaliadwy;
- prosiect Codi Pontydd Cadarn y Cynulliad, i argymhell cyfraniad pellach gan y sector gwirfoddol mewn iceyd;
- digwyddiad ar y cyd rhwng y Gweinidog dros Faterion Owledig a'r sector gwirfoddol trwy weithio ym mhob ardal i feithrin cysylltiadau cryfach a datblygu gwell dealtwriaeth o waith y nall i'r llall;
- cymeradwyaeth Gweinidogol i'r egwyddor o ddatblygu yn seiliedig ar asedau fel cyfrwng effeithiol i adfywio cymunedau yng Nghymru;
- sefydlu Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Cyntaf a fydd yn darparu £9 milliwn o grantiau mynediad uniongyrchol i grwpiau cymunedol.

Mae CGGC yn awr yn edrych ymlaen at weithio gyda'r sector a'r Cynulliad dros y flwyddyn nesaf i adeiladu ar y Iwyddiannau sylwedol a welwyd eisoes.

Daisy Seabourne,
Polisi CGGC

Anna Nicholl, Polisi CGGC

"Codi Pontydd Cadarn"

Mae Codi Pontydd Cadarn yn benllanw prosiect chwe mis gan Lywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â CGGC a'r sector gwirfoddol, i gryfhau'r berthynas rhwng y sector a'r NHS yng Nghymru.



Mae'r adroddiad yn cynnwys 23 o argymhellion, ac mae pob un wedi cael eu derbyn gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Jane Hutt. Mae'r argymhellion wedi mynd peth o'r flordd tuag at fynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd gan CGGC fel rhan o'n hymateb i'r ymgynghori ar Newid Strwythurol yn yr NHS yng Nghymru.

Os c'ant eu gweithredu, bydd yr argymhellion yn gweud gwahaniaeth gwirioneddol i'r berthynas rhwng y sector gwirfoddol yn ei waith ym maes iechyd, lles a gofal cymdeithasol, a phartneriaid statudol. Un o brif nodau'r adroddiad yw gwella'r cysylltiadau rhwng y gwasanaethau iechyd statudol a'r sector gwirfoddol. Gellir cyflawni hyn mewn amryw o ffurdd gan gynnwys rhannu gwybodaeth am y newidiadau

i'r NHS yng Nghymru, a hefyd enwi swyddogion o fewn y strwythurau newydd a fydd yn gweithredu fel dolenni cyswilt gyda'r sector gwirfoddol.

Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu y dylid creu swydd hwylusydd gofal iechyd a chymdeithasol ar lefel leol yn y cyngorau gwirfoddol sirol (CGS). Byddai hyn yn gwella potensial mudiadau gwirfoddol lleol i gyfrannu at gynllunio a darparu gwasanaethau, a darparu cefnogaeth hollbwysig i ddau gynrychiolydd y sector gwirfoddol ar y byrddau iechyd lleol.

Mae'r adroddiad hefyd yn argymhellion cyflwyno trefniadau cadarn i sicrhau parhad y nawdd a ddarperir i'r sector gwirfoddol ar hyn o bryd gan awdurdodau iechyd a grwpiau iechyd lleol, pan ddönt i ben yn Ebrill 2003.

Mae'r argymhellion eraill sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad yn cynnwys ymrwymiad i gryfhau rhwydweithiau cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gofal iechyd a chymdeithasol; canfod meysydd lle gellid darparu hyfforddiant ar y cyd; a chefnogi datblygu gwirfoddol mewn gofal iechyd a chymdeithasol.

Dylid edrych ar yr adroddiad fel y cam cyntaf tuag ar weithio mewn partneriaeth fwy clos gydag NHS Cymru a'i bartneriaid, a bydd yn cyflwyno her newydd a chyffrous i'r sectorau gwirfoddol a statudol dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

Derbyniodd gweithdal Lynx yn Llanelli wobr o £5,000 gan y cynllun iechyd meddwl lleol. Delnyddiwyd yr arian ar gyfer nifer o weithgareddau creadigol - megis gwneud tapestrï - er mwyn rhoi hwb-i hyder a hunan-barch pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

2

Rhannu arbenigedd, datblygu gwasanaethau

Eleni, mae CGGC wedi ehangu ei bortffolio er mwyn cefnogi, datblygu a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru



Lein gymorth CGGC
Gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer y sector gwirfoddol
0870 607 1666

Wales Council for
Voluntary Action
Cymru / Comisiwn
Gwirfoddol Cymru

Dyddiad Llun i ddydd Gwener
Blynnyd: Blynnyd
strae: help@wcvca.org.uk
webs: wcvca.org.uk

Help! - i'r sector

Mae **Help CGGC** - yr uned sy'n arloesi mewn gwasanaethau gwybodaeth - wedi lansio gwasanaeth Lein Gymorth newydd, sy'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth dros y ffôn ac e-bost. Mae'r gwasanaeth pwrrpasol hwn - **0870 607 1666** / help@wcvca.org.uk - ar agor o 8yb hyd 6yh o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac mae'n deliau â phob math o ymholaied oddi wrth aelodau a mudiadau eraill. Mae'r cylchlythyr electronig poblogaidd i aelodau - **e-frifff CGGC** - yn cael ei gynhyrchu gan **Help CGGC** ac mae'n cynnwys crynodeb o newyddion nawdd, ymgynghoriadau, canllawiau'r Comisiwn Elusennau ab: Cyhoeddwyd 23 o rifynnau.


Ar ddiwedd y flwyddyn, lansiodd yr uned Lein Gymorth i grwpiau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf - **0800 587 8898** / ymholaiedau@cymunedau yn gyntaf.info



Mae'r gwasanaeth hwn, a ddarperir gan CGGC i bartneriaeth Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, hefyd yn cynnwys cylchlythyr electronig misol, *e-fletin Cymunedau yn Gyntaf*.

Mae **Help CGGC**, sy'n ymateb i oddetu 600 o ymholaied bob mis, hefyd yn cyhoeddi taifienni gwybodaeth, taifienni ffeithiau, a phapurau cefndir ar bob math o bynciau o yswiriant i grantiau bach i grwpiau bach.

Graham Benfield, Adam Price AS, Neil Caldwell a Tom Jones yn agoriad Sbardin, canolfan gweithredu gwirfoddol yr Eisteddfod.



Un elfen bwysig o'r gwasanaeth a ddarperir gan **Help CGGC** yw'r prosiect gwasanaethau cyfreithiol arbenigol, sy'n cael ei ariannu gan y Lloyds TSB Foundation, Mae'r prosiect yn cynnig arweiniad a chefnogaeth gyfreithiol i staff gwybodaeth CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol. Mae ymholaiedau ar bynciau megis cyfraith cyflogaeth, contractau, gweithio mewn partneriaeth, ac aetebolwyd ymddiriedolwyr, i gyd yn gallu elwa ar y cyngor arbenigol sydd ar gael. Mae mwya a mwya o ganllawiau cyfreithiol yn cael eu cyhoeddi mewn erthyglau yn *Rhwydwaith Cymru*, taifienni gwybodaeth a phapurau cefndir a diweddarriadau cyfreithiol chwarterol.



Enrico Carpanini, Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol CGGC

Mae'r gwasanaethau gwybodaeth a chefnogi eraill a ddarparwyd gan CGGC eleni yn cynnwys:

- 22 rhifyn o *Rhwydwaith Cymru*, y cylchgrawn dwyieithog pythefnosol i'r sector gwirfoddol.
- 125 o chwiliadau grant i aelodau.
- Cynnal Sbardin - y paflawn gweithredu gwirfoddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yn Nyddewi, Sir Benfro.
- Cyhoeddi amryw o ganllawiau ymarferol:
 - Canllawiau cyflogaeth i ganolfannau bra (a grwpiau gwirfoddol eraill)
 - Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella - canllawiau ymarferol
 - Y llawlyfr gwirfoddoli diogel
 - O'n gwirfodd (argraffiad diwygiedig)

Ewrop

Bu datblygu gwasanaethau sy'n cefnogi, helpu a hyrwyddo cyfraniad y sector mewn rhaglenni nawdd prif ffrwd Europeaidd yn un o feysydd allweddol

gwaith CGGC Ewrop. Eleni, mae'r uned wedi sicrhau oddeutu £5m o nawdd Europeaidd sydd wedi arwain at benodi gweithwyr datblygu ychwanegol i bob un o'r CGS ledled Cymru, ac - gyda chefnogaeth ychwanegol y Cynlliad - at sefydlu tim cyllid Europeaidd arbenigol yn CGGC.

Mae 3 Ymgynghorydd Nawdd sy'n gweithio ledled yr ardal Amcan 1 yn darparu cymorth a chyngor ymarferol i fudiadau gwirfoddol sydd am wneud cais am nawdd Europeaidd. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnwys:

- safle rhngweithiol ar y we sy'n cynnwys canllawiau eglur a defnyddiol: www.wcva.org.uk/Europe

- llytrgell adnoddau rhngweithiol ar CD ROM

- amrywiaeth eang o daflenni gwybodaeth ar nawdd Europeaidd

- digwyddiadau hyfforddi ledled yr ardal Amcan 1

darparu gwasanaeth ymholaied dros y ffôn, e-bost ac wyneb yn wyneb, gan helpu tua 300 o grwpiau.

Risg Gymdeithasol

Hefyd, mae'r Gronfa Risg Gymdeithasol - sy'n darparu grantiau uniongyrchol hyd at £10,000 i grwpiau bach gydag incwm o dan £100,000 - wedi dosbarthu dros £600,000 i dros 60 o fudiadau.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae CGGC eisoes yn cynnal trafodaethau ar y diwygiadau i'r Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2006. Mae hyn wedi golygu canolbwytio ar nifer o feysydd allweddol:

Gweithio gyda sectorau ac asiantaethau allweddol i ddatblygu trefn Cymru gyfan i'r ddadl ar gydlyniaid.

Gweithio gyda chyngħair Trydydd Sector/Cyrrf Anlywodraethol ehangach ar draws y DU ac Ewrop i ddatblygu agwedd sectoraidd tuag at gydlyniaid a dyfodol y Cronfeydd Strwythurol.

Gweithio gydag Adrannau Uywodraeth y DU a Uywodraeth Cynlliad Cymru i ddatblygu perspectif Cymreig cryfach yng Nghymru. Gweithredu Cenedlaethol dros Gynhwysiant Cymdeithasol.

Chwarae rhan flaenllaw a datblygu bid troiannol dros Gymru o dan y Rhaglen Cynhwysiant Cymdeithasol.

Chwilio am fecanweithiau cyllido dyfeisgar a gwahanol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru ar ôl 2006.

"Rwyf yn ysgrifennu erthygl ar fynediad at nawdd Europeaidd ac yn ystod fy ymchwil deuthum ar draws y tudalenau Europeaidd rhagorol newydd ar safle CGGC ar y we - mae'r wybodaeth yn dda dros ben, ac wedi ei chyflwyno'n effeithiol ac eglur".

Angela Rumsey, Golygydd Cynorthwyo, Charity Week

Sgiliau i'r sector

Mae'r rhaglen hyfforddi a gyhoeddwyd gan CGGC wedi ehangu ymhellach eieni: trenwyd 30 o grysiau, gyda 360 yn eu mynchu, gan ddarparu sgiliau hanfodol ar gyfer gweithio yn y sector.

Lwyddodd seminarau ar faterion ansawdd - gan ganolbwynio'n benodol ar fabwsiadu system sicrwydd ansawdd addas - i ddeu nifer sylwedol o gyfranogwyr, fel y gwnaeth y gynhadledd ar faterion TGCh. Roedd yr olaf yn cynnwys siaradwyr o'r Cynulliad ac ELWa a chylwyniadau ar Cymru ar-lein - sy'n ymdrech i wella mynediad at TG ac annog datblygiad sgiliau TG sylfaenol yng Nghymru.

Daeth *Cyfranogaeth Cymru*, cynllun partneriaeth, i fodolaeth yn ystod ail hanner y flwyddyn, ac mae bellach yn trefnu amrywiaeth eang o grysiau hyfforddi, cefnogaeth a gwybodaeth ar gyfranogaeth gymunedol a chyhoeddus.

Bu Ymddiriedolaeth Cyfryngau Cymru, cynllun ar y cyd rhwng yr Ymddiriedolaeth Cyfryngau a CGGC, yn cynnal dros 20 o ddigwyddiadau, gan helpu dros 200 o fudiadau i gwrdd a'u hanghenion cyfathrebu. Roedd y cyrsiau'n amrywio o gynhyrchu cylchlythyrau i hyfforddiant mewn sgiliau cyfweld ar gyfer y teledu. Sefydlyd cysylltiadau gwaith da gyda'r BBC, HTV, Western Mail and Echo a llawer mwya.

Fel rhan o *Gorff Hyfforddi*

Cenedlaethol y Sector Gwirfodol (VSNTO), mae CGGC wedi cyfrannu at ddatblygu safonau galwedigaethol i staff sy'n gweithio ym meysydd codi arian, rheoli gwirfoddolwyr ac ar gyfer ymddiriedolwyr. Nid yw'r VSNTO yn bodoli ers Mawrth 2002, ac mae CGGC, yngnyd a'n chwaer gynghorau, yn gweithio i sicrhau fod addysg ac anghenion hyfforddi'r sector gwirfodol yn cael ystyriaeth lawn fel rhan o'r agenda addysg ôl 16 a hyfforddiant sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru a Phrydain.



Kate Thomas,
Hyfforddiant CGGC

Training to have a say in the community

A NEW initiative is aiming to help people in Wales to play a part in decision-making

Wales Council for Voluntary Action is running a programme of one and two-day courses designed for people who want to develop knowledge and skills to meet a growing consensus that effective governance requires public participation in policy making.

Gwirfoddoli

Roedd dros 400 o gwirfoddolwyr yn bresennol mewn dduddigwyddiad yn y De a'r Gogledd i nodi diwedd *Blywyddyn Rhyngwladol y Gwirfoddolwyr (IYV) 2001*. Bu'r prif slaradwyr yn y seremoniau yng Nghaerdydd a Llangollen yn rhoi gwedd leol, genedlaethol a rhwngwladol ar y flwyddyn. Roedd y seremoniau'n cynnwys cyflwyno gwobrau i ddeg o enillwyr Gwobr IYV.

Daeth dros 50 o reolwyr gwirfoddolwyr o bob rhan o Gymru at ei gilydd ym Mhlas Gregynog i lwythau cwrs preswyll deuddydd a oedd yn llawn hwyl a gwybodaeth, ac a oedd hefyd yn gyflwr i dradro pynciau pwysig sy'n berthnasol i laes gwirfoddoli. "Dyma ffordd wych i gwrdd â phobl sy'n gweithio yn yr un maes â mi," medd un cynrychiolydd.



Rheolwyr gwirfoddolwyr wrthi'n adeiladu tim.

Mae'r safle ar y we www.gwirfoddoli-cymru.net wedi mynd o nerth i nerth ers ei lansio y llynedd. Yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf cofnodynwyd 38,000 o ymweliadau a'r safle, gyda dros 1,400 o geisiadau gan bobl am ragor o wybodaeth am y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael yng Nghymru. Cafodd y *Llawlyfr gwirfoddoli diogel* ei gyhoeddi i annog arferion da mewn gwirfoddoli, ac mae'n rhoi arweiniad ymarferol i fudiadau ar sut i ddefnyddio gwirfoddolwyr yn ddiogel yn eu gwaith.

Mae *Gwirfoddolwyr y Mileniwm* helyd wedi mynd o nerth i nerth eleni gyda 2799 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 yn cymryd rhan mewn pob math o weithgareddau gwirfoddol o fewn eu cymunedau. Llywyddodd 529 o Wирfoddolwyr y Mileniwm i sicrhau eu Gwobr Rhagoriaeth a lofnodwyd gan Brif Weinidog y Cynulliad, y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC.

Y 500fed Gwirfoddolwr y Mileniwm i dderbyn ei Gwobr oedd Ann Marie Roberts, a derbyniodd ei thystysgrif gan Becky Wicks a Dave Lee mewn seremoni yn y Guildhall yn Wrecsam.

Mae Ann Marie yn gwirfoddoli fel Rheolwr Rhaglenni gyda Radio Ysbyty Maeor yn ogystal â gweithio mewn swydd llawn amser.



Kathryn Llewellyn,
gwirfoddolwraig gyntaf
cynllun VIP
Gwirfoddolwyr y
Mileniwm.



Gwneud y CYSWLLT-iad

Mae Cyswllt Galwadau a Chyswllt Tâl yn brosiectau 'Marchnad Lafur Ganolraddol'. Maeant yn darparu hyfforddiant a phrofiad gwaith mewn ardaloedd o ddiwlithdra uchel, ac yn cynnig gwasanaethau "swyddfa gefn" i fudiadau gwirfodol a busnesau eraill bach a chanolig eu maint. Maeant yn derbyn nawdd Europeaidd a chefnogaeth gan nifer o asiantaethau ac maeint yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â phob math o fudiadau a chwmniau gan gynnwys BT a CMG.

Mae canolfan galwadau cymunedol Cyswllt Galwadau yn darparu gwasanaeth derbyn galwadau, gwasanaeth cwsmariaid a marchnata i'r sector gwirfodol yng Nghymru a'r DU. Mae'n cynnig gwasanaethau cwbl ddwyleithog am bris cystadleulol, ac mae'n defnyddio'r cyfleusterau diweddaraf, gan gynnwys system galwadau diweddaraf Meridian a gweinydd Symposium.

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys: gwasanaeth cefnogi gweinyddol llawn i weithgareddau marchnata mudiadau, gan gynnwys post-daflladau, arolygon o aelodau, gweinyddu ymgyrchoedd gwerthu, gweinyddu cynadleddau a gweinyddu recrifiol. Mae'r clientau presennol yn cynnwys: WDA, Canolfan Co-op Cymru, Cyswllt Busnes, CGGC. Mae dros 120 o hyfforddeion wedi cwblhau eu hyfforddiant ac mae dros eu hanner wedi dod o hyd i waith yn y diwydiant canolfannau galw.

Mae gwasanaeth cyflogres a gweinyddu Cyswllt Tâl yn cynnig gwasanaeth cyflogres effeithlon, proffesiynol a chost effeithiol i fudiadau gwirfodol a busnesau bach a chanolig eu maint.

Mae'n darparu gwasanaethau cyflogres wythnosol, pythefnosol, pedair wythnosol a misol safonol, tra bod modd trefnu pecynnau wedi eu cynllunio'n bwrpasol i gwrrd ag anghenion mudiadau. Mae clientau'r gwasanaeth yn cynnwys: Ailgylchu Dodrefn Conwy, Gwasanaethau Gwirfodol Sir Ddinbych, Menter Cymoedd Llechi, Canolfan Co-op Cymru, CGGC.

Prosiect peliach o dan Y Farchnad Lafur Hanner Ffordd yw Cyswllt Adwerthu sy'n rhoi cyfe i bobl o bob oed a chefnir ennil profiad gwaith a chymwysterau galwedigaethol a fewn y sector adwerthu. Mae'r prosiect yn cael ei redeg mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfodol a lleoli'r hyfforddeion mewn amryw o wahanol unedau adwerthu gwirfodol. Yn ystod y lleoliad mae'r hyfforddeion yn cyflawni rôl hanfodol yn yr uned adwerthu, ac erbyn diwedd y cyfnod lleoliad o chwe mis, byddant yn gallu rhedeg yr uned yn effeithiol, o leiaf dros dro.

Y Fargen Newydd

Mae CGGC wedi rhedeg contract y Fargen Newydd yn llwyddiannus ar ran consortiwm mudiadau gwirfodol Gogledd Cymru, gan ddefnyddio 260 o hyfforddeion a 30 y cant o'r rhain wedi dod o hyd i waith hirdymor wedyn. Afwyddiannus fu bid CGGC am y cynllun Teiwrto Llwybrau JC+ peilot a ddisodliod Opsiwn Sector Gwirfodol y Fargen Newydd yn Wrecsam a Sir y Flint. Mae'r contract am y ddwy ardal JC+ arall wedi ei ymestyn am 12 mis arall, ac mae CGGC yn parhau i ddarparu'r opsiwn yng Nghonwy a Gwynedd.

Call centre is major success

A BANGOR based training centre is an successful, that it is to be used as a model across throughout the

should be tackled at this level as it has been with this initiative.

"I am optimistic that the availability of trained staff will encourage business to invest in the area and is delighted to contribute to the Bangor

should be a key player in this partnership, which aims to tackle the problems of high unemployment rates and allow a skills base in the region."

Each call centre course lasts three weeks and can take up to eight trainees who are taught keyboard skills, health and safety and job search

3

Grantiau CGGC - arian i'r sector, a reolir gan y sector

Mae CGGC yn gweithredu i ddiogelu a chynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'r sector trwy gynlluniau grant a reolir yn annibynnol. Bob blwyddyn gwelir cynnydd yn y symiau a ddyfernir a'r gweithgareddau a gefnogir.

Eleni, dosbarthwyd cyfanswm o £8.4 m i 763 o brosiectau. Mae dros 50 o unigolion - y rhan fwyaf ohonynt yn aelodau o Fwrdd CGGC - yn gweithio "yn y cefndir" fel aelodau o baneli grant ymgynghorol, sy'n gwneud yn sicr fod yr arian yn cael ei weinyddu'n effeithlon a'i wario'n ddoeth...

Four scoop £10,000 environmental award for school

YSGOL Llanymddyfelin is set for a range of environmental activities in its grounds after four Talleithi volunteers won £10,000. Diex Ansall, Alli Cane, Polly Henshaw and Cory Morris-Walt won the £10,000 between them from the Welsh Council for Voluntary Action (WCVA). Their money will be used to implement schemes at the grounds of the school as well as training for the local community. The team will work on community projects such as creating Earth Angel Woodland Garden School, a sensory garden and educational planters, as well as helping to plant trees across the local area. The project partners believe their local communities have the potential to make a significant contribution to the environment, as well as the wider economy. The £10,000 will be used to help the school to develop its environmental education programme, as well as its links with the local community. The school has already started work on its new garden, which will be completed by the end of the year. The school is also planning to host a series of events to raise awareness of environmental issues and encourage local businesses to get involved. The school is also looking forward to the arrival of its new teacher, who will be joining the staff next term. The school is also looking forward to the arrival of its new teacher, who will be joining the staff next term.

Grants scheme for voluntary organisations

Residents floored by grant for village hall

EFFOSTRASOL residents will soon get the benefit of a new floor in the village hall thanks to a grant worth more than £4,000.

It has been announced by the Wales Council for Voluntary Action that a grant of £4,391 from the Community Buildings Grants Scheme will help the Flostrasol and

the grant last week, it is very pleased."

The Community Buildings Grant will pay 65 per cent toward the cost of the work, with the residents of Flostrasol paying the other 35 per cent, around £2,200.

Mrs Coulbourne said that the old chipboard floor definitely needed replacing.

over it. It needed to be replaced for safety reasons,"

Geraint Humphreys, the WCVA Director of Grants, said: "The aim is to support schemes that in the main rely on volunteers to run and manage them.

"We're looking for small-scale projects that will help existing halls to undertake repairs essential to maintain and sustain existing activities, and improvements to help them respond to new needs in communities."

Village Hall, which has been £1,999 for translation equipment is raised

its good bearing capacities of

sations that were actually raised, although

"We had double the number of

Dyma rai o'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau

Margaret Jervis

Fel is-Gadeirydd ac un o ymddiriadolwyr CGGC, mae enw Margaret Jervis yn gyfarwydd trwy ei gwaith gyda Valleys Kids, y mudiad datblygu cymunedol o'r Rhondda sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Yn wreiddiol o'r Alban, lle dechreuodd weithio fel gwirfoddolwr gyda gwaith ieuengatia chymunedol yn ei phentref lleol, daeth Margaret i Gymru ym 1977 a sefydlodd Valleys Kids mewn seler io wngalchog. Erbyn hediw, mae'r grŵp yn rhedeg tri phrosiect cymunedol, prosiect cymunedol i sicrhau mynediad at dechnoleg, prosiect cell i bobl ifanc, daw fws cymunedol, 104 o wirlodolwyr, 45 o staff cyflodig, a dros 2,000 o aelodau sy'n manteisio ar weithgareddau, gwasanaethau a hyfforddiant y prosiect.

Mae Margaret yn gwasanaethu ar nifer o grwpiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Cronfa Ymddiriedolaeth Cymru'n Gyntaf a Chwarae Cymru, ac mae'n aelod o bwylgorau monitro rhaglen Amcan Un, amryw o bwylgorau Cyngor Celfyddydau Cymru, a Grŵp Cynllunio Datblygu Cymunedol Rhondda Cynon Taf a Grŵp Technegol RhCT ar gyfer Amcan 1. Bu hefyd yn gadeirydd *panel ymgynghorol grantiau Cynnal*.

Margaret Jervis, Is-gadeirydd CGGC, Gweinidog y Cynulliad Edwina Hart a Mary Lewis, Cadeirydd Pwylgor Neuadd y Plwyf yn Neuadd Blwyf Liangnydd.

Pauline Young

Mae Pauline Young wedi ymdeol o'i swydd dysgu ers 1997 - ond mae'n brysurach nag erioed. Mae'r cyn ddar lithydd o Brifysgol Morgannwg yn rheoli Prosiect Rhondda Vival, mae'n gadeirydd Federasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro a llywodraethwyr Ysgol Maes Dylan, y Barri ac mae'n gyfarwyddwr/ymddiriadolwr Ymdydriedolaeth Tai Opportunity - yn ogystal â bod yn aelod o Fwrdd CGGC.

Ar ôl ymdeol yn gynnar, derbyniodd Pauline wahoddiad gan NCH Gweithredu dros Blant i reoli cyflussteau hamdden a gofal seibiant i blant gydag anbleddau yn Rhondda Cynon Taf.

Ar ôl tair blynedd, daeth yn rheolwraig Prosiect Vival, sy'n cynnig cyflenwad hamdden a hyfforddiant o safon i bobl ifanc rhwng 11 a 25, gyda a heb anbleddau - ac erbyn mae ei aelodaeth wedi tyfu i 240.

Ymunodd â CGGC yn 2000 ac mae'n aelod o'r *panel ymgynghorol ar Seilwaith a phanel ymgynghorol Gwirfoddolwr y Mileniwm*, ac mae'n gadeirydd y *panel ymgynghorol ar grantiau lechyd Meddwl*.



Tim Stowe

Yn Gyfarwyddwr RSPB Cymru ac yn un o ymddiriedolwyr CGGC, mae Tim Stowe yn gadwraethwr o argyhoeddiaid sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r sector amgylcheddol gwirfoddol ers dros 25 mlynedd.

Yn folegydd wrth ei alwedigaeth, mae ei swyddi niferus wedi cynnwys arwain tim yr RSPB a oedd yn arloesi dull gweithredu newydd o weithio gyda chymunedau gwledig yn Ucheldir ac Ynysoedd yr Alban a hyfforddi staff lleol mewn technegau cadwraeth mewn ardaloeedd o Nigeria a oedd yn dioddef sychder.

Ers ei benodi i'w swydd gydag RSPB Cymru ym 1997, mae Tim wedi cynllunio rhagleni uchelgeisoli atal y dirywiad yn niferoedd adar tir amaethyddol megis y rugiar ddu. Mae hefyd wedi arwain gwaith yr RSPB gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru i hyrwyddo'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys rheoli 19 gwarchodfa natur a hyd at 70 aelod o staff tymhorol a flawn amser.

Mae Tim wedi cyrrannu at sawl pwylgor Amcan 1 yng Nghymru, ac mae'n aelod o sawl un o weithgorau'r Cynulliad - gan gynnwys Grwp Dyladol Ffemio - ac mae'n gadeirydd *panel grantiau Enfys CGGC*.

Torr i'r rhuban yn Neuadd Goffa Llanfaffteg, Sir Gaerfyrddin.

Y cynlluniau grant

Gwasanaethau Gwirfoddol Lleol

Roedd dros £2m ar gael i gefnogi rhwydwaith o gynghorau gwirfoddol sirol y wlad trwy'r cynllun Gwasanaethau Gwirfoddol Lleol. Dylamwyd cyfanswm o £2,050,000 i CGS i helpu grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol ym mhob sir yng Nghymru.

Canolfannau Gwirfoddol Xtra

Dyfarnwyd cyfanswm o £749,072 mewn grantiau i 23 o swyddfeydd gwirfoddol ledled Cymru yn ystod ail flywyddyn y rhaglen tair blynedd hon. Mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i helpu sefydlu canolfannau gwirfoddoli newydd - gyda'r nod o ddenu pobl i gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol a chymunedol - a darparu gwasanaethau ymestyn ar gyfer pobl llanc a phobl o leiafrioedd ethnig.



Y Cynllun Grantiau Bach

Gwnaethwyd 12 dyfarniad gwerth £1,442 i elusennau yn dilyn diwedd y cynllun hwn i ddosbarthu'r arian a oedd yn weddill ar ôl dirwyn Cronfa Weddillion Ymddiriedolaeth Telethon HTV Cymru/Wales i ben.



Agor Drysau

Mae'r cynllun blwyddyn hwn wedi helpu i hyrwyddo gweithgareddau dwyieithog ym mhob rhan o Gymru ac i wneud digwyddiadau cymdeithasol yn fwy pleseris i bobl sy'n drwm eu cylw trwy roi arian tuag at offer cyfeithu symudol a dolenni sain. Fe'i noddir gan y Camelot Foundation, a dyrannodd y cynllun £39,933 i 23 o brosiectau yn ystod 2001/02.

Jigso

Mae'r cynllun hwn, sydd wedi ei leoli yn y Gogledd, ac sy'n cael ei ariannu gan Camelot, yn cefnogi staff proffesiynol ac eraill sy'n ymgrychu dros sicrhau gwell cyfranogaeth cyhoeddus mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig trwy gyfrwng hyfforddiant, grantiau, gwybodaeth a chyhoeddidiadau. Cyfrannwyd cyfanswm o £51,357 i 56 o gylluniau.

Cynlluniau Grant Iechyd Meddwl Lleol

Derbyniodd 47 o brosiectau sy'n cynnig gwasanaethau iechyd meddwl £1.6m fel rhan o'r cynllun hwn, sy'n helpu pobl gyda phroblemau iechyd meddwl a'u teuluoedd a'u gofalwyr i fyw bywydau mor annibynnol a llawn â phosibl.

Mae'r mudiadau a dderbyniodd grant yn cynnig gwasanaethau sy'n cynnwys cefnogaeth tai a chyngor - i sicrhau llety neu i helpu pobl i aros yn eu cartrefi - trafnidiaeth i ysbtyai ac i siofa, a chymorth gyda phob math o dasgau ymarferol megis llenwi ffurflenni ac ysgrifennu llythyrau. Cyfrannodd y cynllun hefyd £125,000 mewn grantiau bach i 23 o grwpiau.

Chi a'ch Cymuned*

Mae'r cynllun gwobrau mileniwm newydd hwn yn gynnig grantiau bychain ac yn cefnogi pobl i gyflawni prosiectau sy'n gwella eu cymunedau.

Lansiad cynllun grantiau
Chi a'ch Cymuned

Enfys - meisydd glas a chymunedau cynaliadwy yng Nghymru

Yn ystod chwe mis cyntaf y cynllun gwelwyd rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru'n cael eu hysbrydoli gan y cynllun hwn sydd â'r nod o greu rhagor o feysydd glas.

Mae cynllun Enfys, sy'n werth £15m, wedi gweithredu fel sbardun trwy arwain at sefydlu prosiectau sy'n amrywio o greu meisydd chwarae i blant, rhandoedd organig a pharciau a gerddi cymunedol, i lwybrau gwydd, trafnidiaeth gymunedol a chylluniau ynni effeithlon.

Mewn nifer o achosion, y cymunedau hynny sydd wedi dioddef y dirywiad strwythurol a chymdeithasol gwaethaf yw'r rhai sy'n dangos yr euvyllys grifal i adfywio'u cymunedau a'r ymrwymiad mwyaf brwd i wella'u hamgyllcheddau.

Un engraffit yw Partneriaeth Penrhys, sydd wedi ei lleoli yn y stâd tai o'r 1960au ym mhen draw Cwm Rhondda. Mae gan y grwp gylluniau radical i drawsnewid eu hamgyllchedd adeiledig a chymdeithasol a dyfarnwyd £4,940 iddynt i lunio cynllun gweithredu i ailddiffinio'r meisydd glas cymunedol.

Mae Enfys yn cael ei reoli gan CGGC mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaeth y Twysog yng Nghymru ac Amgylchedd Cymru. Mae wedi derbyn £7.5m o nawdd cyfatebol oddi wrth y Gronfa Cyfleoedd Newydd ac mae'r gweddl yn cael ei godi o amrywiol ffynonellau, gan gynnwys Ewrop.



Cynnal - Canolfannau Bro i'r Milfylwydd

Cyrhaeddodd nifer y seremoniau agor eu penllarw eleni, gyda dim ond llond dwrn o'r neuaddau pentref a chymunedol newydd neu sydd wedi eu hadnewyddu heb eu cwblhau. Cafodd £1.3m o'r £10m sydd ar gael ei ryddhau gan y cynllun arienni gan Comisiwn y Mileniwm I wella cyfeusterau cymunedol ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r rhaglen wedi galluogi'r neuaddau i gynnig amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol, hamdden ac addysgol, sy'n cynnwys popeth o gylfeusteriau TGCh i chwaraeon a hamdden a swyddfeydd post a meddygfeydd i ddosbarthiadau TGAU.



Neuadd Mileniwm Llandogo

Canolfannau Bro

Mae'r cynllun hwn, sy'n parhau â gwaith da Cynnal, ac sy'n cael ei arlannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi dyfarn £24,822 i 17 o brosiectau yn ystod ei bedwar mis cyntaf. Mae'r rhaglen yn cynnig graniatiau cyfafol ar gyfer mân waith atgyweirio a gwelliannau i adeladu er mwyn gwella safon y cyfeusteriau mewn neuaddau pentref a chymunedol ledled Cymru.

HRH y Dywysoges Frenhinol yn seremoni agoroladol Neuadd Bentref Llanddingad, Sir Fynwy.

Dolenni Cymuned

Daeth y cynllun hwn i ben ar ôl galluogi nifer o grwpiau a mudiadau bach - gan gynnwys grwpiau newydd heb gyfansoddiad na threlniadaeth flurfiol - i ddod at ei gilydd ac i ddysgu trwy waith a phrofiadau ei gilydd. Roedd yn cael ei reoli gan CGGC ar ran Sefydliad Baring, a dyfarnodd £10,187 i 36 o brosiectau.



Cenogaeth Cymunedol y Gelli Gandryll a'r Cyffiniau

Gwirfoddoli yng Nghymru

Mae gwirfoddoli yng Nghymru wedi derbyn £614,863 yn ystod y flwyddyn, diolch i'r cynllun hwn a sefydlwyd gydag arian y Cynulliad. Dosbarthwyd yr arian i 88 o brosiectau sy'n reciwtio gwirfoddolwyr, yn helpu i ddatblygu arferion da mewn gwirfoddoli ac yn annog gweithgareddau mewn ardaloedd lle nad oedd gwirfoddoli wedi datblygu cystal ag y gallai.



Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Mae'r rhaglen hon wedi cyrraedd diwedd tair blynedd Iwyddiannus o hyrwyddo a chydnabod gwaith cymunedol gwirfoddol dros gyfnod gan bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Dosbarthwyd cylansiwm o £257,848 i 75 o wobrau.

Traws Cymru*

Gweinyddir y cynllun newydd hwn gan CGGC ar ran Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm. Ei nod yw meithrin gwell dealtwriaeth a chyfeillgarwch ymlysg pobl ifanc Cymru

drwy gefnogi prosiectau sy'n dwyn ynghyd bobl ifanc 11-25 mlwydd oed drwy gyfrwng cynlluniau cyflnewid diwylliannol neu chwaraeon.

Cronfa

Ymddiriedolaeth Rhoi Cymunedau yn Gyntaf*

Mae Rhoi Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen adfywio a gynheli'r gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a fwriedir ar gyfer cymunedau mwyaf difreintledig Cymru. Mae'r Cynulliad wedi darparu £9m dros daир blynedd ar gyfer mudiadau cymunedol sy'n sicrhau budd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol yn ardaloedd Rhoi Cymunedau yn Gyntaf. CGGC sy'n gweinyddu'r Gronfa ar ran Rhwydwaith Cefnogi Rhoi Cymunedau yn Gyntaf.

* Ni ddifymwyd grantiau dan y cynlluniau hyn cyn 31.3.02.

Chwaraewyr Traws
Cymru!

Diwrnod lansiad Neuadd Goffa'r Rhyfel.

Trefeglwys.



Balchder Bro

Mae'r cynllun treftadaeth gymunedol hwn yn gynllun a gynhelir ar y cyd gyda Chnygor Cefn Gwlad Cymru ac fe'i hariannir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a Chymdeithas Adeladu Nationwide. Y cynllun peilot a gynhelir ar hyn o bryd ac mae eisoes wedi rhoi gwerth £100,000 o grantiau i naw o gymunedau mewn tair ardal bellor yng Ngogledd, De a Gorllewin Cymru.

Arwain - Cyllun Gwobrau'r Mileniwm

Yn ystod blwyddyn olaf y cynllun tair blynedd hwn, a noddir gan Comisiwn y Mileniwm a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, dyrranwyd £375,395 i 122 o prosiectau arloesol a gynlluniwyd gan unigolion lleol er mwyn gwella'r gymuned. Tra bu'r cynllun Arwain yn rhedeg, gwelwyd llawer mwy na'r disgwyl o wirfoddolwyr tro cyntaf, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a rhai ag anableddau yn troi ato.

Cynllun Straen Cefn Gwlad*

Lansiwyd fis Mawrth - gyda £450,000 ar gael i fudiadau gwirfoddol i fyny at £30,000 i'w helpu yn y dasg o liniaru'r straen oherwydd neu wnaeth waethyg o ganlyniad i argylwng clwy'r traed a genera mewn cymunedau gwledig led led Cymru.



4

Rhestr o ymddiriedolwyr CGGC

Tom Jones, OBE	Cadeirydd	Ruth Marks	Chwarae Teg
Margaret Jervis, MBE	Is-Gadeirydd	Jane Pagler	Ymddiriedolaeth Tai Cyfle
Douglas E. Morris	Trysorydd	Graham Price	Cymdeithas Addysg y Gweithwyr
Mohammed Akteruzzaman, MBE	Unigolyn	John Puzeys	Ffurwm Tai Cymru
Sue Barlow	Dylunio Cymunedol Gwent		Cymorth i Ddioldefwyr Sir y Flint
Lydia Bassett	Celfyddydau Gwirfoddol Cymru		Oxfam yng Nghymru
Rhiannon Bevan	Unigol [tan fis Tachwedd 2001]	Keith Roberts	Celfyddydau Gwirfoddol Cymru 2001]
D. Emrys Bowen	Cymdeithas Frenhinol Amaethyddol Cymru	Anne Marie Rogan	Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth [tan fis Mai 2001]
Dr. Neil Caldwell	Unigolyn	Margaret Sheppard	Mencap Cymru
Phil Davies	Cymdeithas Alzheimers	Howard Sinclair	Cynulliad Merched Cymru
Rhian Davies	Anabledd Cymru [tan fis Tachwedd 2001]	Mair Stephens	Gwasanaeth Cyngor yr Eglwysi yng Nghymru
Eurwen Edwards, BEM	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	George Stokes, MBE	Cwlvwm Cefn Gwlad a Bywyd Gwylt Cymru
Stuart Etherington	NCVO	Dr. Tim Stowe	Plant yng Nghymru
David G. Evans	Unigolyn	Catriona Williams	Wendy Williams, MBE Cymdeithas Chwaraeon Cymru
S. Meryl Evans	Unigolyn	Judy Ling Wong, OBE	Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Ddu
Lindsay Foyster	Mind Cymru [hyd at fis Rhagllyr 2001]	Pauline Young	Federasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Catrin Fletcher	Celfnogaeth Gartref	Mohammed Yusuf	Cyngor Fflooduriaid Cymru
John Griffiths	Cyngor Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol Cymru	Ymgynghorwyd Cyfreithiol	
Robert Hargreaves	Cymdeithas Genesis (Cymru) tan fis Tachwedd 2001	Hanif Bhamjee	Crowley a'r Cwmni
Nerys Hughes, MBE	Canolfan Adnoddau Anableddau	Ymgynghorwyd	
Robert A. Hutchings	Unigolyn	Wayne David	Cyngor Ieuencid Cymru [tan fis Mai 2001]
Tom Jones	Gwp Mynediad Sir Conwy	Martin Fitton	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Margaret Knight	Cymdeithas Diabetig Prydain [tan fis Tachwedd 2001]	Sylvia Howe	Y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol
David Maggs	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro [tan fis Tachwedd 2001]	Simon Jones	Canolfan Gydweithredol Cymru [tan fis Tachwedd 2001]
John Meredith MBE	Eglwys Dewi Sant		

Sylwebyddion

Norma Barry

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Margaret Thorne, OBE, DL

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol Cymru Councils

Graham Williams

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Archwiliwyr

KPMG LLP

Bancwyr

Banc Barclays Ccc

Banc Natwest Ccc

Ysgrifennydd y Cwmni

Jan Bish

5

Datganiad i ddangos gweithgaredd ariannol

Mae'r datganiadau ariannol cryno hyn yn grynodeb o wybodaeth a godwyd o'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon statudol. Mae'n bosib nad ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth i roi dealltwriaeth lawn o sefyllia ariannol yr elusen. Am wybodaeth bellach, dylid edrych ar y cyfrifon llawn am y flwyddyn, adroddiad yr archwiliwr ar y cyfrifon hynny ac Adroddiad Blynnyddol yr Ymddiriedolwyr. Gellir cael copiau o'r rhan gan Sj Bish, Ysgrifennydd y Cwmnïau.

Cymeradwywyd y cyfrifon blynnyddol ar 11 Hydref 2001 ac fe'u cyflwynwyd i'r Comisiwn Elusennau a'r Cofrestrydd Cwmnïau. Archwiliwyd y cyfrifon gan archwiliwr cymwys, KPMG, a roddodd farn ddiadod, heb gynnwys datganiad, fel sy'n ofynnol dan adran 237 (2) a (3) Deddf Cwmnïau 1985.

Incwm & gwariant

	Cronfeydd Heb gyfngiad	Cronfeydd Cfyngedig	Cyfanswm 2002	Cyfanswm 2001
	£	£	£	£
Adnoddau a dderbyniwyd				
Rhoddion	0	233,333	233,333	238,334
Grantiau	684,668	15,252,452	15,937,120	9,721,290
Tanysgrifiadau	30,546	0	30,546	19,191
Incwm arall	1,220,959	629,628	1,850,587	1,735,870
Ulog a ennillwyd ac incwm arall o fuddsoddi	41,638	101,875	143,513	72,025
Cyfanswm yr Incwm a dderbyniwyd	1,977,811	16,217,288	18,195,099	11,786,710
Adnoddau a ddefnyddiwyd				
Grantiau Elusennol	0	8,412,416	8,412,416	8,127,012
Uniongyrchol				
Eraill	1,468,248	3,021,594	4,489,842	2,981,218
Rheoli a gweinyddu'r elusen	221,515	21,720	243,235	456,763
Cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd	1,689,763	11,455,730	13,145,493	11,564,993
Adnoddau net a dderbyniwyd yn y flwyddyn				
Darpariaethau nad oes eu hangen mwyach	288,048	4,761,558	5,049,606	221,717
Elw (coiled) heb ei wrieddu ar fuddsoddiadau	-31,000	31,000	0	0
Neiwd yn y cronfeydd	5,215	0	5,215	6,901
	262,263	4,792,558	5,054,821	228,618
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2001	446,818	1,650,016	2,096,834	1,868,216
Gwreddiad Cronfa Albrisiad	323,384	0	323,384	0
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2002	1,032,465	6,442,574	7,475,039	2,096,834

Hoffai CGGC ddiolch i'r mudiadau canlynol am eu cefnogaeth:

Sefydliad Baring
Telecom Brydeinig
Sefydliad Camelot
Y Sefydliad Cymorth i Elusennau
Y Gronfa Gymunedol
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Yr Adran Addysg a Chyflagoeth
Yr Adran Datblygu Rhwngwladol
Addysg a Dysgu Cymru
Yr Undeb Ewropeaidd
Cronfa Treftadaeth y Loteri


Sefydliad Lloyds TSB dros Cymru a
Lloegr
Ymddiriedolaeth y Cyfryngau
Comisiwn y Mileniwm
Y Ganolfan Genedlaethol dros
Wiriadoli
Mudiad Hyfforddi Cenedlaethol
Cymdeithas Adeiladu Nationwide
Y Gronfa Gylleoedd Newydd
Cyngor Mudiadau Gwirfoddol yr
Alban

Llywodraeth Cymru
Asiantaeth Datblygu Cymru
WEPE Cyf




EUROPEAN UNION
European Social Fund
YR UNDEB EWROPEAIDD
Cymru Gymreigiaid Ewrop

Adnoddau a dderbyniwyd (Cronfeydd heb gyfyngiad)



Adnoddau a ddefnyddiwyd (Cronfeydd heb gyfyngiad)



Mantolen

	2002	2001
	£	£
Asedau sefydlog	1,255,163	1,780,803
Asedau cyfredol		
Buddsoddiâu	86,474	81,259
Dyledwyr a rhagdaliadau	199,741	290,396
Cash at Bank and in Hand	<u>7,144,000</u>	<u>1,479,599</u>
	7,430,215	1,851,254
Credydwyr:		
Symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn	1,210,339	1,211,839
Asedau cyfredol net	<u>6,219,876</u>	<u>639,415</u>
	<u>7,475,039</u>	<u>2,420,218</u>
Cronfeydd		
Cronfeydd cyfyngedig	6,554,934	1,707,709
Cronfeydd cyfyngedig - balansau dyledus	<u>-112,360</u>	<u>-57,693</u>
	6,442,574	1,650,016
Cronfeydd heb Cyfyngiad - Cyffredin	762,465	446,818
Cronfeydd heb Cyfyngiad - Penodedig	<u>270,000</u>	0
	1,032,465	446,818
Cronfa gadw ailbrisio	0	323,384
	<u>7,475,039</u>	<u>2,420,218</u>

Datganiad archwiliwyr annibynnol i ymddiriedolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno ar dudalennau 25 i 27 sy'n gyfrifon an-statudol a baratowyd er mwyn eu cynnwys yn Adolygiad Blynnyddol yr elusen.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwyr, y naill a'r llall

Mae'r bwrrd yn gyfrifol fel ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr am barato'i datganiadau ariannol cryno. Rydym wedi cytuno i adrodd i chi, yr ymddiriedolwyr, ynghylch eu cysonder â'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon statudol, ac fe adroddwyd ar hynny ar 11 Hydref 2001. Rydym hefyd wedi darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn y datganiadau ariannol cryno ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os ydym yn dod yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau materol gyda'r datganiadau ariannol cryno.

Sail ein barn

Rydym wedi gweithredu'r treftadau yr ydym yn credu sy'n angenrheidiol er mwyn canfod a yw'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon statudol sy'n sail i'w paratoi.

Barn

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2002.

KPMG LLP

Cyfrifwyr Siartredig

Archwiliwyr Cofrestredig

Marlborough House, Llys Fitzalan

Caerdydd CF24 0TE

11 Hydref 2001